## Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Prentisiaethau yng Nghymru y Pwyllgor Menter a Busnes

---

Mae prentisiaethau yn un o raglenni blaenllaw Llywodraeth Cymru o hyd. Rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu statws a brand prentisiaethau yng Nghymru, a pharhawn i osod y rhaglen fel canolbwynt i'n darpariaeth sgiliau i'r gweithlu. Er mwyn sicrhau bod prentisiaethau yn parhau i fod yn effeithiol, mae angen iddynt addasu i'r tirlun newidiol yng Nghymru. Mae'n hanfodol ein bod yn adolygu ein harferion a'n polisi gweithredol yn rheolaidd os ydym am sicrhau ein bod yn cyflenwi rhaglen "safon aur", sy'n gallu bodloni anghenion cyflogwyr a phobl ledled Cymru.

Mae polisïau'r Llywodraeth yn cael eu hysbysu gan y Wybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) ac fe'u gweithredir drwy'r broses dendro ar gyfer ein rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW). Mae hyn yn rhoi i ni sylfeini cadarn ar gyfer cyflenwi o ansawdd yn y rhwydwaith DSW. Mae gan y fframwaith cyflenwi ar gyfer DSW hyblygrwydd i amrywio ein gofynion, os oes angen, gan gynnwys drwy ddefnyddio elfen arloesi i gyflenwi mathau newydd o ddarpariaeth DSW. Mae gennym lai o gontractau uniongyrchol – bwriad hyn yw annog cydweithredu cynyddol o fewn y rhwydwaith dysgu a chyflenwi llwybrau dysgu 14-19, gan ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr.

Rydym yn canolbwyntio o hyd ar bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed mewn ymateb i ddiweithdra ymysg pobl ifanc, ac mae'r contractau Dysgu Seiliedig ar Waith a'r dyraniadau ar gyfer 2012/2013 yn dangos hyn. Mae prentisiaethau yn cynnig cyfleoedd da i bobl ifanc ddianc o'r cylch dim profiad, dim gwaith. Ein nod yw gwneud prentisiaethau yn fwy atyniadol i bobl ifanc a sicrhau eu bod yn ymddangos mewn dewisiadau gyrfaol yn 14 oed. Fodd bynnag, gan ein bod yn cynnig rhaglen Brentisiaethau i bob oedran yng Nghymru, ceir cyfnewidiad polisi rhwng buddsoddi mewn prentisiaid ifanc sy'n symud i gyflogaeth, a'r rheini sydd eisoes yn y gweithlu.

Ymdrechwn i gael cydbwysedd rhwng gwasanaethu anghenion pobl ifanc sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur a sicrhau bod opsiynau ar gael o hyd i oedolion sydd eisiau meithrin eu sgiliau: oherwydd bod mantais economaidd a chymdeithasol barhaus i brentisiaethau ar gyfer oedolion. Cydnabyddwn bwysigrwydd cynyddu lefelau sgiliau gweithlu presennol Cymru, fel bod ganddynt well siawns am ddyrchafiad. Mae'r gweithredu hwn nid yn unig yn cynorthwyo busnes gyda'i gynlluniau ar gyfer olyniaeth ond mae hefyd yn creu cyfleoedd i brentisiaid newydd ôl-lenwi swyddi gwag diweddarach.

Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau ar gyfer oedolion yn cael eu cyfyngu gan sectorau diwydiant. Mae hyn yn cyfyngu'r mynediad i'r rheini sydd dros 25 oed ac wedi'u lleoli mewn sector na roddir blaenoriaeth iddo (e.e. Adwerthu). Disgwylir i hyn barhau (yn unol â pholisi cyfredol y Llywodraeth), gan mai nod y rhaglen yw cefnogi rhagor o bobl ifanc gyda'r trawsnewid i gyflogaeth gynaliadwy. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau ynghylch Prentisiaethau Uwch; yn enwedig os yw busnesau am ddenu a

meithrin doniau newydd ac os ydym am gynyddu'r lefelau sgiliau ar draws gweithlu Cymru.

Gyda gofynion croes, sef canolbwyntio cefnogaeth ar bobl ifanc 16-24 oed, a hefyd gwella lefelau sgiliau arferol oedolion oed gweithio, mae angen sicrhau ein bod yn adeiladu ar y strwythurau cyflenwi presennol ac yn eu datblygu i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ifanc, yn gadarn, yn ymatebol ac yn abl i fodloni anghenion cyflogwyr. Bydd hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth sicrhau bod y rhaglen yn effeithio i'r eithaf ar bobl sydd tu allan i'r farchnad lafur. Mae'r argymhellion o'r adroddiad yn gofyn i'r Llywodraeth ystyried a datblygu atebion i ystod o faterion y gellid eu rhannu yn dair thema allweddol: -

- Cyswllt cynyddol â chyflogwyr:
  - Gwella'r ffyrdd y mae cyflogwyr yn clywed am brentisiaid, yn eu canfod a'u recriwtio.
  - Ystod o gefnogaeth sy'n sicrhau bod LIC yn cynyddu lefelau cyswllt cyflogwyr â'r rhaglen, yn enwedig o safbwynt microfusnesau a busnesau bach.

- Cysylltu â phobl ifanc:
  - Symbylu'r galw am brentisiaethau gan bobl ifanc a gwella'r sianelau cyfathrebu y mae pobl ifanc yn clywed am brentisiaethau drwyddynt.

- Cyflenwi prentisiaethau:
  - Gwella'r system drwy gyfrwng hygyrchedd gwell a chliriach, brandio cliriach a chyflwyno prentisiaethau uwch.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru er mwyn adlewyrchu anghenion economi Cymru orau a gwella cyfleoedd gyrfaol pobl ledled Cymru.

Mae Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod.

**Argymhelliad 1**
Gwneud mwy i argyhoeddi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, o bwysigrwydd a chost-effeithiolrwydd prentisiaethau fel rhan o ddull mwy strategol o gynllunio eu hanghenion sgiliau yn y tymor canolig a'r hirdymor.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r ymchwiliad wedi canfod angen amlwg am gyswllt cynyddol gyda chyflogwyr yn y rhaglen brentisiaethau ledled Cymru. Bydd angen cymryd camau i hybu a chysylltu â chyflogwyr nad ydynt eisoes yn ymwneud â'r rhaglen brentisiaethau, neu na fu ganddynt gysylltiad â'r rhaglen ers cryn amser. Mae hon yn thema sy'n ailadrodd ei hun ar draws yr argymhellion (yn benodol argymhellion 4, 6, 11 ac 20). Isod, fe welwch fanylion y camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i roi sylw i'r her hon.

- Datblygu a gweithredu strategaeth cysylltu, marchnata a chyfathrebu sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogaeth mewn prentisiaethau, gyda ffocws penodol ar gwmnïau bach a chanolig eu maint. Gallai hyn gynnwys rhaglenni eiriolaeth a fydd yn annog cyflogwyr sydd eisoes yn cyfranogi i weithredu fel llysgenhadon i hybu prentisiaethau.

- Gweithio mewn cydweithrediad â rhaglenni ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arlwy ehangach a mwy cydlynol ar gyfer cyflogwyr yn cael ei ddatblygu a, gan hynny, sicrhau bod y rhaglen brentisiaethau yn cael yr effaith fwyaf posibl. Bydd hyn yn galluogi dull symlach o sicrhau cysylltiad cyflogwyr. Hefyd, gweithio'n strategol i ddylanwadu a hybu defnyddio prentisiaethau drwy gyfrwng datblygiadau polisi ar draws Llywodraeth Cymru. Bwriedir hyn er mwyn defnyddio i'r eithaf y dylanwad o weithgareddau eraill a gynhelir ar draws Llywodraeth Cymru.

- Cynnal ymarferiad cwmpasu gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Siambrau Masnach a'r TUC er mwyn canfod y rhwystrau ymddangosiadol sy'n wynebu busnesau a chanfod ffyrdd o roi sylw i'r rhain, yn enwedig gyda chyflogwyr llai.

- Gweithio gydag ein rhwydwaith darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a chyflenwyr y rhaglen Datblygu'r Gweithlu i hwyluso eu cysylltiad gyda chyflogwyr.

- Gweithio gyda Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) a Phanelau Sector i annog cyflogwyr sydd â rhaglenni prentisiaethau sydd wedi'u hen sefydlu i fentora cyflogwyr bach a chanolig a gweithio law yn llaw â hwy.

**Goblygiadau Ariannol** – Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn, gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar y strwythurau cysylltu â chyflogwyr sy'n bodoli eisoes. Disgwylir y bydd rhai o'r camau gweithredu a amlinellir uchod yn niwtral o ran costau; er hynny, cydnabyddir y bydd rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithgareddau cysylltu a hyrwyddo. Disgwylir y caiff y rhain eu talu o gyllidebau y cytunwyd arnynt.

## Argymhelliad 2

Cyhoeddi nifer y prentisiaid sy'n mynd ymlaen i gael gwaith ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben, yn ôl y sector y maent yn mynd iddo.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gan Lywodraeth Cymru waith yn mynd rhagddo i 'gydweddu' data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC) data gyda chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn edrych a yw prentisiaid sydd newydd gymhwyso yn aros mewn gwaith, boed hynny gyda'r un cyflogwr neu mewn man arall. Fodd bynnag, megis dechrau mae'r gwaith hwn ac, er ei fod yn

gam pwysig, mae iddo wendidau o ran y byddai'r dull hwn yn annhebygol o ddarparu i ni wybodaeth fanwl ar lefel sectorau. Mae olrhain y swyddi y mae'r prentisiaid yn mynd iddynt yn yr hirdymor gydag amrywiol asiantaethau, yn bosibl ond gallai'r goblygiadau o ran cost fod yn sylweddol. Bydd angen cwblhau gwaith cwmpasu pellach i ganfod a ellir bodloni'r argymhelliad hwn yn llawn.

**Goblygiadau Ariannol** – Wrth i'r gwaith hwn barhau, mae'n bosibl y bydd gofyn cynnal dadansoddiad o'r costau a'r manteision er mwyn canfod a ellir bodloni'r argymhelliad hwn yn llawn.

**Argymhelliad 3**
Ymestyn cymalau manteision cymunedol mewn contractau sector cyhoeddus i drefniadau is-gontractio er mwyn hyrwyddo cyflogi hyfforddeion a phrentisiaid, gan ofalu peidio ag effeithio'n niweidiol ar ficrofusnesau.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'n bwysig nodi nad yw'n bosib i'r sector cyhoeddus orfodi canlyniadau cyflogaeth a hyfforddiant yn uniongyrchol o fewn trefniadau is-gontractio. Fodd bynnag, fe allwn, ac rydym yn hyrwyddo cyflogi hyfforddeion a phrentisiaid drwy gynnwys cymalau manteision cymunedol mewn contractau uniongyrchol, a gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu'n bositif ar arferion eu contractwyr drwy gydol y cadwyni cyflenwi.

Er mwyn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, mae'r Compact Llywodraeth Leol bellach yn cynnwys gofyniad i bob contract addas sy'n werth £2 filiwn a mwy gynnwys cymal Manteision Cymunedol; fel y mae rheolau sefydlog y GIG a phob contract addas gan Lywodraeth Cymru sy'n werth £2 filiwn a mwy yn ei wneud. Mae cyfleoedd i gynnwys amod manteision cymunedol mewn cyllid grant priodol Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau. Mae rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yr Adran Addysg a Sgiliau eisoes yn cynnwys gofyniad i gynnwys cymalau manteision cymunedol fel amod o gyllid.

Mae Manteision Cymunedol wedi'u hen sefydlu yn y diwydiant adeiladu ac mae tystiolaeth anecdotaidd o'r sector yn awgrymu bod prif gontractwyr eisoes yn gweithio gyda'u cadwyni cyflenwi i sefydlu canlyniadau hyfforddiant a chyflogaeth o'u trefniadau is-gontractio. Mae contractau megis Cynllun Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys a Chynllun ffordd ddosbarthu'r cyrion Port Talbot wedi gweld hyfforddiant a chyflogaeth yn cael ei ddarparu gan y prif gontractwr a'u his-gontractwyr.

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Manteision Cymunedol, wedi'i gadeirio mewn cymhwyster personol gan Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru. Mae'r Grŵp hwn yn gweithredu i adolygu'r arweiniad a'r polisïau Manteision Cymunedol presennol a bydd yn edrych ar y cyfle i atgyfnerthu'r arweiniad ar y mater hwn.

Fodd bynnag mae cyflenwyr sy'n is i lawr y cadwyn cyflenwi yn llai a byddant yn gweithio ar brosiectau am gyfnodau byrrach felly mae'n bosib y bydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu canlyniadau positif – mae'n debygol y bydd angen rhyw fath o gynllun rhannu prentisiaethau. Hyd yma, mae cynlluniau o'r fath wedi elwa o gyllid AdAS, a byddwn yn parhau i gefnogi'r cynlluniau hyn pryd bynnag y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn. Disgwylir y bydd rhai o'r gweithredoedd datblygu a amlinellir uchod yn niwtral o ran costau; er hynny, cydnabyddir y bydd rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â rhai gweithgareddau, er enghraifft, unrhyw fodelau prentisiaethau a rennir. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 4**
Gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod canran sylweddol o gyfleoedd Twf Swyddi Cymru yn cael eu cynnig fel prentisiaethau.

**Ymateb: Derbyn**

Cynnig swydd drwy gyfrwng Twf Swyddi Cymru (TSC) fel cyfle prentisiaeth yw'r canlyniad delfrydol, gan sicrhau nid yn unig barhad yn y gyflogaeth i'r unigolyn ifanc ond hefyd hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a gwella cyflogadwyedd i'r dyfodol.

Tasg yr asiantau rheoli sy'n cyflenwi TSC yw hybu prentisiaethau fel cyfle datblygu i bobl ifanc, gan gynnwys y posibilrwydd o gefnogaeth bellach â chymorth drwy gyfrwng y Rhaglen Recriwtiaid Newydd. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd datblygu yn ein harweiniadau ar gyfer Twf Swyddi Cymru ac wedi ategu hyn gyda nodiadau atgoffa dros yr e-bost at asiantau rheoli.

Byddwn yn monitro cynnig cyfleoedd drwy Twf Swyddi Cymru fel prentisiaethau a dyma fydd un o'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar reoli contractau i'r dyfodol. Mae'r dystiolaeth gynnar iawn o symud ymlaen o Twf Swyddi Cymru i brentisiaethau yn galonogol a chyhoeddir y set ddata gyntaf ar ddatblygu yn fuan yn 2013.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y gost yn dibynnu ar a yw'r lleoedd prentisiaeth hyn yn ychwanegol at y recriwtio sy'n digwydd eisoes. Rydym wedi cytuno ar £20m yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 drwy gyfrwng cytundeb y gyllideb, felly bydd cyllideb gyffredinol y rhaglen brentisiaethau yn talu am unrhyw alw cynyddol a fydd yn deillio o gynnig swyddi TSW fel prentisiaethau.

**Argymhelliad 5**
Ystyried prif ffrydio a chlustnodi cyllid ar gyfer y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau ar gyfer system gynllunio a chyllido arfaethedig ar gyfer addysg ôl-16, gyda mesurau diogelwch i sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol i anghenion economaidd a gofynion ardaloedd lleol.

**Ymateb: Gwrthod**

Datblygwyd y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau (LlatB) yn 2009 i gefnogi pobl ifanc yn ystod y dirywiad economaidd. Bydd y rhaglen yn parhau i weithredu yn ei fformat presennol hyd at flwyddyn academaidd 2013/14. Mae'r prosiect yn cael arian ESF. Bydd hwnnw'n dod i ben yn unol â'r rhaglenni ESF presennol hyd at 1 Awst 2014. Mae'n hanfodol i'r arferion da, a ddaw i'r amlwg o'r rhaglen, gael eu hystyried yn erbyn y cyd-destun polisi ehangach sy'n datblygu. Rydym yn cydnabod yr angen i symud gweithgaredd llwyddiannus LlatB i'r cylch cynllunio datblygu i'r dyfodol.

Mae'r cynigion ar gyfer gwneud diwygiadau i'r system gynllunio a chyllido yn debygol o argymell cyllido rhaglenni dysgu, yn hytrach na chymwysterau unigol. Byddai hyn yn cyd-fynd â LlatB, gan mai rhaglen ddysgu ydyw i bob pwrpas. Er hynny, caiff rhaglenni i'r dyfodol eu llunio gyda mewnbwn oddi wrth amrywiol sectorau diwydiant, a gallent fod yn wahanol i'r cynlluniau LlatB presennol. Hefyd, gan fod y system gyllido yn debygol o symud at gyllido rhaglenni, gallai neilltuo gweithgaredd presennol LlatB fod yn anodd.

**Goblygiadau Ariannol** – Byddai unrhyw gostau yn sgil cyflenwi'r rhaglenni LlatB presennol neu ddiwygiedig yn cael eu talu o'r cyllid presennol y cytunwyd arno ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach.

**Argymhelliad 6**
Annog cyflogwyr sydd â rhaglenni prentisiaeth sydd wedi hen ennill eu plwyf i fentora cyflogwyr bach a chanolig i'w cynghori ar gynlluniau prentisiaeth a rhannu darpariaeth hyfforddi.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 1 a bydd y gwaith datblygiadol, fel yr amlinellir yn fy ymateb i argymhelliad 1, yn cynnwys gweithgaredd o'r math hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Fel yr amlinellir yn Argymhelliad 1.

**Argymhelliad 7**
Targedu cyllid ar gyfer prentisiaethau lefel uwch yn y sectorau mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu darparu i ateb anghenion economi bywiog, modern Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Bwriadwn ddatblygu ac ehangu gweithgareddau prentisiaethau uwch yng Nghymru, a gwneir gwaith yn fuan i ganfod pa lefel cyllid fyddai'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Cyflwynwyd fframweithiau Prentisiaethau Uwch drafft i ddechrau yn Awst 2011. Er hynny, mae angen gwneud llawer iawn o waith datblygu i sefydlu peirianweithiau cyllido a chyflenwi, a fydd yn cynnwys y sector Addysg Uwch a dysgu seiliedig ar waith, ac i benderfynu ar y sectorau mwyaf priodol i ganolbwyntio'r gweithgaredd arnynt a marchnata'r ffaith eu bod ar gael ymysg cyflogwyr a darpar brentisiaid.

Bydd ystod y galwedigaethau a gynhwysir yn y fframweithiau Prentisiaethau Uwch yn parhau i gael ei hymestyn wrth i ragor o fframweithiau gael eu hysgrifennu (yn ychwanegol at yr un ar bymtheg o fframweithiau drafft a gyhoeddwyd cyn belled). Mae'r fframweithiau drafft newydd hyn a fydd ar gael yn rhoi'r addewid y caiff ystod yr opsiynau prentisiaeth sydd ar gael i gyflogwyr a phrentisiaid ei hymestyn ond, oherwydd eu bod yn newydd, mae angen cymryd gofal i gynllunio eu gweithredu yn systematig.

**Goblygiadau Ariannol** - Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn. Cydnabyddir y gallai costau ychwanegol sylweddol fod yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi cytuno ar £20m yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau ym mlwyddyn ariannol 2013-14 drwy gyfrwng cytundeb y gyllideb, felly telir y costau ychwanegol cysylltiedig drwy gyfrwng cyllideb gyffredinol y rhaglen brentisiaethau.

### Argymhelliad 8

Adolygu pa mor effeithiol yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau o ran ateb anghenion gwybodaeth cyflogwyr a darpar brentisiaid.

**Ymateb: Derbyn**

Lansiwyd peilot Cymru gyfan y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (GPP) yng Ngorffennaf 2011. Mae'r GPP yn ffurfio rhan o'r gwerthusiad ehangach o Ddysgu Seiliedig ar Waith, a wnaed gan sefydliad trydydd parti. Cyhoeddir yr Adroddiad Gwerthuso yn fuan. Caiff sylwadau, awgrymiadau ac arolygon o ddefnyddwyr eu cyflawni yn barhaus ac, os oes newidiadau yn ofynnol mewn meddalwedd o ganlyniad i adborth gan y defnyddwyr, gwneir y gweithgaredd gwella hwn fel arfer bob 6 mis, yn ddibynnol ar y costau. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried gwella'r rhaglen erbyn Medi 2013.

**Goblygiadau Ariannol** – Disgwylir y bydd y cyllidebau datblygu presennol yn talu am rai o'r gweithredoedd a amlinellir uchod.

**Argymhelliad 9**
Gweithio ar lefel y DU i sicrhau bod gan y cynghorau sgiliau sector y gallu i deilwra fframweithiau prentisiaeth i ateb gofynion newidiol cyflogwyr a'r galw am fframweithiau prentisiaeth uwch yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) er mwyn sicrhau bod swm a sylwedd fframweithiau prentisiaethau ar gael i fodloni'r galw. Ariennir y Cynghorau Sgiliau Sector gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) i wneud y gwaith hwn drwy gyfrwng eu contractau i gyflenwi fframweithiau prentisiaethau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) dan y broses gomisiynu 'Gwasanaethau Cyffredinol'. Cynrychiolir Cymru gan ddau uwch swyddog ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyffredinol lle gwneir penderfyniadau comisiynu ar ddatblygiadau fframwaith. Yn ogystal, mae Cymru yn darparu cyllid i'r CSS i ddatblygu, treialu a phrofi cyflenwi fframweithiau newydd drwy gyfrwng y rhaglen Cynllun Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector. Mae 17 o brosiectau cynllun peilot sy'n ymwneud â phrentisiaethau naill ai wedi'u cymeradwyo neu wrthi'n cael eu hystyried. Mae'r prosiectau peilot hyn yn cwmpasu ystod eang o feysydd galwedigaethol, yn amrywio o wyddorau bywyd, yr amgylchedd adeiledig, creadigol a diwylliannol, bwyd a diod, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus.

Hyd yma, cyhoeddwyd 16 o fframweithiau Prentisiaethau Uwch drafft yng Nghymru gan gwmpasu'r meysydd galwedigaethol a oedd â'r galw mwyaf, gan gynnwys rolau swyddi megis rheoli, peirianneg, adeiladu a TG. Dan y rhaglen flaenorol y Diploma Sgiliau Modern, gwelwyd llawer iawn o alw am Reoli yn y maes gofal. Mae CSS Cyngor Gofal Cymru yn bwriadu cyhoeddi fframwaith Prentisiaeth Uwch perthnasol ar gyfer Rheoli yn y maes gofal yn fuan, gan ddefnyddio'r ddogfen Pennu Safonau Prentisiaethau ddiwygiedig.

**Goblygiadau Ariannol** – UKCES fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu fframweithiau PU, fodd bynnag, mae'n bosib y ceir achosion penodol lle caiff fframweithiau PU eu datblygu'n lleol am gost o oddeutu £25k y fframwaith, a hynny er mwyn bodloni anghenion diwydiannau/ marchnadoedd arbenigol yng Nghymru. Ni allwn ddarparu costau terfynol ar gyfer y gweithgaredd hwn hyd at 2014-15, ar y cynharaf.

**Argymhelliad 10**
Cyhoeddi fersiwn derfynol Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddwyd Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (PSPG) yn anstatudol yn Hydref 2012. Mae'r fersiwn hon o PSPG wedi ymestyn ystod y fframweithiau prentisiaeth drafft i gynnwys Prentisiaethau Uwch ar lefel 4, 5 a

6 ac mae'n darparu hyblygrwydd eang iawn i sicrhau y gellir teilwra'r fframweithiau i fodloni anghenion penodol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn cynnwys, er enghraifft, yr opsiwn i gynnwys hyd at chwech o unedau yn seiliedig ar gredydau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) o golofn Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd FfCChC i dargedu gofynion penodol cyflogwyr yn ogystal â'r opsiwn ar Lefel 5 a 6 i gynnwys cymwysterau cymwyseddau nad ydynt yn perthyn i'r FCCh sy'n bodloni'r gofynion mynediad i gyrff proffesiynol perthnasol. Mae dau CSS yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu unedau Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd i'w cynnwys mewn fframweithiau prentisiaethau Cymreig.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol y rhaglen.

**Argymhelliad 11**
Annog darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a hyfforddiant prentisiaeth i feithrin cysylltiadau agosach â chyflogwyr ac ysgolion er mwyn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a chymell cynnydd tuag at hyfforddiant seiliedig ar waith a/neu gyflogaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Rhoddwyd cryn dipyn o ystyriaeth i hyn ac mae gwaith eisoes wedi'i wneud ar sut y gallwn annog y gweithio tridarn hwn er mwyn sicrhau'r nifer fwyaf posib o gyfleoedd prentisiaethau i ymadawyr ysgol.

Yn y fanyleb dysgu seiliedig ar waith presennol, mae gan bob Prentis 16 -19 oed fel cyfranogwyr yn y Llwybrau Dysgu 14 – 19, hawl i dair elfen o gefnogaeth ddysgu. Sef:-

- *Anogwr Dysgu*: unigolyn a enwyd yn sefydliad y darparwr neu drwy gyfrwng trydydd parti a fydd yn rhoi i'r dysgwr gyngor ar sut i ddatblygu ei allu a'i sgiliau dysgu i'r eithaf;
- *Mynediad i Gefnogaeth Bersonol:* mynediad i gefnogaeth bersonol, drwy gyfrwng Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, i ddatblygu atebion a goresgyn sefyllfaoedd yn eu bywydau sy'n rhwystrau i'w dysgu; a
- *Cyfarwyddyd, Cyngor a Gwybodaeth am Yrfaoedd:* hawl i gyfarwyddyd, cyngor a gwybodaeth ddiduedd am yrfaoedd. Pryd bynnag y darperir addysg gyrfaoedd, fframwaith *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith* yw'r ddogfen allweddol y dylai'r Darparwr ei defnyddio i adolygu a datblygu ei ddarpariaeth. Caiff cyfarwyddyd, cyngor a gwybodaeth gyrfaoedd personol arbenigol fel arfer eu darparu gan gynghorwyr proffesiynol o Gyrfa Cymru.

Cynhwyswyd argymhelliad tebyg i hwn yn adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (Mai 2012), yn dilyn ei ymchwiliad i'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Dyma'r argymhelliad:

*Dylai Llywodraeth Cymru ddewis rhestr o gamau gweithredu allweddol y gall eu sefydlu yn gyflym i hybu cyswllt mwy cyson ac effeithiol gyda chyflogwyr i gynllunio a chyflenwi darpariaeth 14-19. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd wneud rhestr o gamau gweithredu allweddol fydd yn sicrhau bod gwybodaeth gywir a diweddar am y farchnad lafur ar gael yn haws i Rwydweithiau 14-19.*

Derbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau hyn mewn egwyddor oherwydd bod amrywiol gamau gweithredu eisoes wedi cael eu sefydlu i sicrhau y ceir cyswllt mwy effeithiol â chyflogwyr i gynllunio a chyflenwi'r ddarpariaeth 14-19. Mae arweiniad Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru eisoes yn datgan ei disgwyliadau y dylai'r rhwydweithiau 14-19 gynnwys cynrychiolaeth o blith naill ai cyflogwyr neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Cyflwynwyd arweiniad statudol i ysgolion a cholegau yn nodi y dylid rhoi'r sylw dyledus i'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol wrth gynllunio cwricwla ardal leol.

Roedd argymhelliad arall gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ymwneud â darparu i bobl ifanc wybodaeth gynhwysfawr am yr holl gyfleoedd hyfforddiant a'r cyrsiau sydd ar gael yn lleol:

*Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno arweiniad sy'n mynnu bod pob ysgol a choleg yn cynhyrchu prosbectws ar y cyd sy'n cynnwys cyngor diduedd ar yr holl gyfleoedd hyfforddiant a'r cyrsiau lleol i ddysgwyr 14-19 oed (gan gynnwys ysgolion, colegau a lleoedd dysgu seiliedig ar waith) er mwyn galluogi dysgwyr i gael mynediad i'r holl wybodaeth sydd ar gael i'w cynorthwyo gyda'u dewisiadau yn 14 ac yn 16 oed.*

Derbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael. Mae'r canlynol yn ddetholiad o'i ymateb:

*Nid wyf mor argyhoeddedig ei bod yn ddymunol cyhoeddi prosbectws ar y cyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Er hynny, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried yr opsiynau ar gyfer cyhoeddi'r Arlwy Cwricwlwm Lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 ar wefan Llywodraeth Cymru. Yng Nghyfnod Allweddol 4 bydd yn sicrhau y bydd dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r cwricwlwm lleol a gynigir gan eu hysgol ac yn gallu ei gymharu ag ysgolion eraill ledled Cymru.*

*Yn y tymor hwy rwyf wedi gofyn i'm swyddogion drafod gyda Gyrfa Cymru Ar-lein ymarferoldeb a gwerth am arian datblygu swyddogaeth i gefnogi cyhoeddi prosbectws maes cyffredin electronig ar gyfer dysgwyr 16-19 ledled Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant gyhoeddi prosbectws cyfun ac i ddysgwyr chwilio am gyfleoedd cyrsiau mewn maes penodol.*

*Felly, nid oes gennyf ddim cynlluniau i gyflwyno arweiniad pellach ar y foment.*

Mae'r swyddogion yn awr yn gweithio gyda Gyrfa Cymru Ar-lein i drefnu i'r Arlwy Cwricwlwm Lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 gael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru mewn pryd ar gyfer lansio'r wefan newydd

yn Chwefror 2013. Mae'r opsiynau ar gyfer datblygu Prosbectws Maes Cyffredin Lleol (gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant a lleoedd dysgu seiliedig ar waith) i ddysgwyr 16-19 yng Nghymru hefyd wedi cael eu trafod ac mae'r dull gorau o fwrw hyn ymlaen wrthi'n cael ei ystyried.

Yn ychwanegol at y gweithgaredd hwn, yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu 'Fframwaith Cyswllt a Datblygu' i ganfod dulliau effeithiol o gefnogi pobl ifanc i gyswllt, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy. Ceir chwe elfen i'r fframwaith:

- **Canfod** pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn fuan;
- **Brocera** cydgysylltu a chefnogi;
- Proses gynhwysfawr o **olrhain** pobl ifanc drwy'r system;
- **Darpariaeth** a datblygiad yn cyd-fynd ag anghenion y bobl ifanc;
- Symud ymlaen at gyflogaeth a **chyfleoedd am gyflogaeth**; ac
- **Atebolrwydd** ar gyfer gwella'n barhaus a chydweithredu cadarnach.

Mae Llywodraeth Cymru yn awr yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid i dreialu datblygu'r fframwaith a bydd prentisiaethau yn ffurfio rhan allweddol o'r arlwy.

Mae Uned Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella sylfaen y Wybodaeth am y Farchnad Lafur sydd ar gael i unigolion, cyflogwyr, darparwyr, llunwyr polisïau ac eraill yng Nghymru. Nod prosiect y Wybodaeth am y Farchnad Lafur yw sicrhau bod llunwyr polisïau yn dod yn gwbl ymwybodol o'r data wrth iddynt gynllunio eu Cwricwla Lleol fel y gallwn sicrhau bod pobl ifanc yn dilyn cyrsiau a fydd yn arwain at gyflogaeth i'r dyfodol.

Bydd angen i weithgaredd marchnata penodol fod yn sylfaen i'r gweithgaredd uchod. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau statws i Brentisiaethau fel dewis gyrfaol cadarnhaol gydag ymdeimlad o falchder a chyflawniad, ar gyfer darpar brentisiaid a phrentisiaid llwyddiannus a'u dylanwadau. Mae'n hanfodol ein bod yn datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu i gynyddu cyswllt cyflogwyr, prentisiaid a rhieni a gwella brand Prentisiaethau. Defnyddir pob sianel gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y nifer fwyaf posib o weithgareddau yn cael eu cyflenwi drwy gyfrwng partneriaethau gyda'r rhwydwaith o asiantaethau cyfeirio a darparwyr hyfforddiant.

Byddwn yn ceisio gweithio gydag ysgolion a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod gan gyflogwyr gronfa eang o ymgeiswyr addas a chymwysedig i ddethol ohonynt. Byddwn yn sicrhau bod darpar brentisiaid a'u rheini yn meddu ar y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ystyried ai Prentisiaeth yw'r trywydd iawn iddynt hwy a'u bod yn meddu ar y wybodaeth berthnasol i ymgeisio, gan dargedu ysgolion gyda phecynnau marchnata a gwybodaeth.

Byddwn yn sefydlu cyfarfodydd chwarterol i'r Grŵp Cyfathrebu Marchnata Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) er mwyn cydweithredu'n agosach gyda'r Rhwydwaith er mwyn hysbysu a chytuno ar y gweithgaredd marchnata ar gyfer Ymgyrchoedd Prentisiaethau, i'r dyfodol.

Mae cymwysterau yn un o elfennau allweddol y ddarpariaeth 14-19 ac fel rhan o'r Adolygiad o Gymwysterau, cysylltodd Llywodraeth Cymru yn helaeth gyda chyflogwyr. Dylai hyn arwain at system gymwysterau sy'n paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer cyflogaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Telir y costau sy'n gysylltiedig â rhyw gymaint o'r gweithgareddau hyn o gyllidebau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 12**
Mynd i'r afael â phroblemau o ran parch a bri tuag at brentisiaethau. Gallai hyn gynnwys:

- ailystyried prentisiaeth fel cynnyrch;
- sicrhau bod pobl yn deall ystyr y term "prentisiaeth"; ac
- ystyried ffyrdd mwy arloesol o hyrwyddo a chyfathrebu "brand" prentisiaeth i bobl ifanc.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Er y gellir gwneud llawer i farchnata'r brand yn fwy cadarnhaol, bydd yn rhaid i gyflogwyr a phobl ifanc wir werthfawrogi prentisiaethau fel dewis amgen credadwy i ddatblygiad academaidd cyn y bydd newid gwirioneddol a pharhaol yn digwydd yn nelwedd prentisiaethau. Byddwn yn gweithio drwy gyfrwng ein proses dendro i sicrhau bod y cynnyrch yn fwy hyblyg a pherthnasol er mwyn ymateb i anghenion cyflogwyr a phobl ledled Cymru.

Mae'r cynnyrch prentisiaethau eisoes wrthi'n cael ei ailddiffinio. Cânt eu diffinio yn awr drwy gontractau cyflogaeth a gan Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru, sy'n datgan y meini prawf gofynnol ar gyfer y cwricwlwm a ddilynir, gan gynnwys yr achrediad cymhwysedd cenedlaethol, y wybodaeth a'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer sgil neu grefft.

Bydd cynnwys Prentisiaethau Uwch yn ddiweddar yn yr arlwy brentisiaethau sy'n cwmpasu lefel 4, 5 a 6, am y tro cyntaf, yn darparu i bobl ifanc lwybr gyrfa gyflawn at statws proffesiynol oherwydd eu bod yn cynnig yr opsiwn i astudio cymwysterau Addysg Uwch perthnasol fel rhan o'r fframwaith. Disgwylir y bydd Prentisiaethau Uwch, dros amser, yn cynnig y dewis amgen galwedigaethol credadwy hwnnw ac yn darparu'r sbardun i newid yr amgyffredion presennol am eu gwerth.

Cydnabyddir bod prentisiaethau yn dioddef o rai problemau parch a bri ond cydnabyddir hefyd bod y rhain yn deillio o ragfarnau diwylliannol generig megis diffyg dealltwriaeth neu 'ddelwedd brand'. Yn y tymor byr, byddwn yn cymryd camau cadarn i farchnata'r brand prentisiaethau ymhellach.

Byddwn yn ceisio gweithio gyda'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyplysu'r brandio cenedlaethol sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau. Byddwn yn gweithio i symleiddio'r negeseuon sy'n gysylltiedig â'r brand, gan sicrhau neges glir a chyson i amrywiol gynulleidfaoedd ledled Cymru. Byddwn yn

cynhyrchu adnoddau marchnata a phecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer y rhwydwaith a bydd y rhain yn cynnwys hysbysiadau i'r wasg, templedi hysbysebu ar gyfer print ac ar-lein, baneri, posteri a sianelau'r cyfryngau cymdeithasol.

Dyma rai gweithgareddau marchnata arfaethedig eraill: -

- Ymgyrch hysbysebu yn y wasg ac ar y radio i hybu Prentisiaethau yng Nghymru a'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau;
- Hysbysebu ar-lein: e-mailer, Google pay per click, Facebook;
- Bydd system gyfeirio glir sy'n cysylltu ein Llinell Gymorth Sgiliau Busnes â'n rhwydwaith darparwyr wedi'i sefydlu;
- Mae'r rhwydwaith darparwyr wedi cytuno i ymateb i gysylltiadau mewn ffenestr 24 awr;
- Bydd Gyrfa Cymru yn cyd hyrwyddo'r gweithgaredd ledled Cymru.

Nod y Gwobrau Prentisiaethau yw cydnabod a dathlu cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr sy'n ymrwymo i ddatblygu eu gweithlu drwy gyfrwng Prentisiaethau gan gefnogi eu gweithwyr yn ystod eu hyfforddiant. Mae'r Gwobrau Prentisiaethau yn ffordd wych o werthuso hyfforddiant a datblygu, yn ogystal ag yn ffactor sbarduno ffantastig i unrhyw weithlu neu ddysgwr. Ennill neu beidio, mae'r gwobrau yn darparu ffordd i ymgeiswyr feincnodi a gwella ar eu hyfforddiant a'u datblygiad.

Defnyddir y Gwobrau i arddangos a dathlu cyflawniadau'r rheini sydd: -

- wedi rhagori ar eu disgwyliadau
- wedi gweithredu'n ddynamig gyda'u hyfforddiant
- wedi dangos menter a chymhelliad, arloesedd a chreadigrwydd
- wedi dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i wella datblygu sgiliau er mwyn economi Cymru.

Mae proses fidio am gefnogaeth nawdd er mwyn i'r Rhwydwaith gynnal digwyddiadau yn ymwneud ag Wythnos Prentisiaethau yn cael ei hystyried.

Fel rhan o'n strategaeth rydym yn integreiddio negeseuon am brentisiaethau mewn amrywiol gynlluniau megis diwrnod cymwysterau galwedigaethol, cystadlaethau a WorldSkills. Nod y rhwydweithiau cystadlaethau sgiliau yng Nghymru yw codi proffil, hybu rôl-fodelau ar draws pob sector a chynyddu cysylltiad gyda phrentisiaethau a sgiliau galwedigaethol a dealltwriaeth ohonynt ledled Cymru. Defnyddir y cystadlaethau hyn mewn rhai achosion i gysylltu ag ysgolion a gellir cynyddu'r fethodoleg hon ymhellach drwy gyfrwng cymhelliannau a roddir i sefydliadau, ynghyd â'r anogaeth, i sefydlu cyfleoedd dysgu byr.

Mae'r cystadlaethau hyn yn ein helpu i:

- ddarparu fframwaith er mwyn i ddysgwyr gael cyfle i gyfranogi, meincnodi a gwella eu sgiliau;

- cefnogi, bwydo a hybu WorldSkills UK a chystadlaethau rhyngwladol eraill o ansawdd ac er mwyn i Gymru godi safonau ei hyfforddiant drwy'r cyfrwng hwn; a
- hybu manteision sgiliau ymysg pobl ifanc a chyflogwyr a dangos yn gadarn gysylltiad rhagoriaeth gyda phrentisiaethau.

**Goblygiadau Ariannol** – Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn. Disgwylir y ceir costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a amlinellir uchod. Yn ddibynnol ar y canlyniad, rhoddir wedyn ystyriaeth i ba gyllidebau fydd ar gael.

**Argymhelliad 13**

Sicrhau bod pob person ifanc a'i rieni yn cael cyngor o safon dda am y cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau ymhell cyn i ddisgyblion ddewis eu hopsiynau ar gyfer TGAU a chyrsiau galwedigaethol, ac annog ysgolion i hyrwyddo prentisiaethau fel dewis amgen hyfyw i addysg uwch.

**Ymateb: Derbyn**

Un o nodau cwricwlwm ysgol Cymru yw paratoi pobl ifanc am sialensiau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolion. Mae Gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG) yn rhan orfodol o'r cwricwlwm i bob disgybl 11 i 16 oed ac mae'n rhoi cyfleoedd penodol i bob disgybl ddysgu am y byd gwaith.

*Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* yw'r ddogfen allweddol y dylai pob darparwr dysgu ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth GBG i ddysgwyr 11 i 19 oed. Un o gydrannau allweddol y fframwaith GBG yw 'deall y byd gwaith', sydd â'r nod o geisio gwella cyflogadwyedd a pharodrwydd unigolion i'r dyfodol ar gyfer y byd gwaith. Drwy gyfrwng GBG, bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfarwyddyd, cyngor a gwybodaeth gyrfaoedd, gan gynnwys gwybodaeth wrthrychol, gywir a diweddar ar gyfleoedd, llwybrau datblygu, dewisiadau, lle i gael help a chyngor.

Mae'r cwricwlwm ysgol yn cynnwys ystod o esiamplau lle gall disgyblion gael dealltwriaeth o GBG. Er enghraifft, drwy gyfrwng addysg bersonol a chymdeithasol, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn adroddiad Estyn: Penderfyniadau gwybodus - Gweithredu *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* adroddwyd bod bron pob ysgol yn rhoi i ddisgyblion wybodaeth dda i'w helpu i ddewis pynciau ym Mlwyddyn 9. Mae hon yn ffordd dda o gynnwys cynghorwyr gyrfa ac yn rhoi i rieni gyfleoedd i drafod opsiynau.

Mae Dewis Gyrfa (sy'n gweithredu fel Gyrfa Cymru) yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd ac annibynnol ar gyfleoedd dysgu, hyfforddiant a gyrfaoedd. Nid rôl Gyrfa Cymru yw hyrwyddo un trywydd yn hytrach nag un arall.

Er hynny, mae Gyrfa Cymru yn cynnig y ddewislen dewisiadau 14-19 ar ei wefan (www.gyrfacymru.com) a disgwyliwn i ysgolion a chonsortia lleol ddarparu ystod gytbwys o opsiynau. Mae Gyrfa Cymru yn lansio gwefan well yn Rhagfyr 2012, a byddwn yn ceisio datblygu ymhellach well gwasanaethau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.

Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y Cynghorau Sgiliau Sector i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod y wybodaeth ar www.gyrfacymru.com yn ddiweddar ac yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar y sectorau.

Mae darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG) o ansawdd ym mhob ysgol yn hanfodol a dylai ddechrau ym mlwyddyn 7. Mewn arolygiad thematig diweddar gan Estyn o gyflenwi Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith mewn ysgolion gwelwyd anghysonderau yn y cyflenwi ar lefel ysgolion. Fel rhan o'r cylch gwaith ar gyfer Gyrfa Cymru yn 2013-14, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r cwmni ystyried sut all weithio orau gydag ysgolion i gefnogi cyflenwi rhaglenni GBG mewn ysgolion – gan gynnwys dull Gyrfa Cymru o feithrin gallu a chyflenwi Nod Ansawdd Gyrfa Cymru.
http://www.estyn.gov.uk/english/thematic-reports/recent-reports/

Byddwn yn mesur y posibilrwydd o lunio pecyn addysgu y gallai cynghorwyr/athrawon gyrfaoedd ysgolion ei ddefnyddio. Gallai hwn gynnwys arddangos gwybodaeth am y farchnad lafur ac opsiynau ôl-16 gan gynnwys prentisiaethau a hybu cydbwysedd rhwng y rhywiau a chydraddoldeb mewn sectorau. Gallai pamffled sy'n tynnu sylw at yr opsiynau pwnc ym mlwyddyn naw, i gael ei ddosbarthu i bob person ifanc sy'n ystyried ei opsiynau, hefyd fod yn rhan o'r pecyn hwn.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau, byddwn yn ceisio datblygu strategaeth farchnata effeithiol a fydd yn cyflenwi ymgyrchoedd a negeseuon cyson, syml a llawn ysbrydoliaeth sy'n rhoi darlun clir o'r rhaglenni y gall cynulleidfaoedd eu cyrchu – gan sicrhau bod yr holl gyfathrebu a'r marchnata yn gyflenwol. Drwy gyfrwng ymgyrchoedd o'r fath, byddem yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglenni ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd er mwyn helpu i gyrraedd targedau'r polisi.

Fel rhan o gynnwys y wefan gellid hybu straeon newyddion allweddol, digwyddiadau ac astudiaethau achos yn ogystal â chyd hyrwyddo negeseuon allweddol a chynyddu proffil rhaglenni Prentisiaethau ar wefannau sefydliadau partner. Gallai gweithgaredd marchnata digidol gynnwys optimeiddio peiriannau chwilio/talu am hysbysebion chwilio er mwyn gyrru'r gynulleidfa darged i'r wefan, hysbysebion baner ar-lein.

Yn unol ag Adrannau a chynlluniau eraill ar draws Llywodraeth Cymru, byddem yn ceisio cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i gynnwys datblygu Prentisiaethau, gan gynnwys tudalen Facebook a phorthiant trydar gyda diweddariadau dyddiol ar leoedd gwag, digwyddiadau a straeon newyddion. Gellid cyplysu hyn â'r GPP.

Byddem yn ymdrechu i gael mwy o sylw yn ystod Wythnos Prentisiaethau 2013, gan drefnu digwyddiadau ledled Cymru i hybu'r rhaglen a chynnal ymgyrch hollgynhwysol gan ddefnyddio ymgyrchoedd CC a radio gan ddefnyddio erthyglau hysbysebu mewn cyhoeddiadau rhanbarthol Cymreig, marchnata ar-lein, cynhyrchu templedi a phecyn cymorth marchnata.

Gwobrau Prentisiaethau Tachwedd 2013 –hyrwyddo'r digwyddiad gan gynnwys astudiaeth achos, datganiadau i'r wasg, ffilmiau hyrwyddo, marchnata ar-lein
Datblygu deunyddiau marchnata newydd gan gynnwys baneri naid, pamffledi, posteri, templedi a phecynnau cymorth ar gyfer y Rhwydwaith.

**Goblygiadau Ariannol** – Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn. Disgwylir y bydd rhai o'r camau gweithredu a amlinellir uchod yn niwtral o ran costau; er hynny, cydnabyddir y bydd rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn, a gellir talu'r rhain o gyllidebau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 14**
Ystyried sut y gellir cydgysylltu, hyrwyddo a theilwra cyfleoedd am brentisiaeth yn well i sicrhau bod blaenoriaethau ac anghenion lleol yn cael eu diwallu'n strategol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion yn gweithio gyda'u cydweithwyr yn fewnol ac yn allanol i ystyried sut y gallwn ni nodi'r blaenoriaethau lleol yn well. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Phartneriaethau Dysgu Rhanbarthol a gwella trefniadau contractio drwy ddefnyddio gwell Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.

Er bod y contractau yn hyblyg i ddiwallu'r ddarpariaeth blaenoriaeth leol, mae angen i ni ystyried pam bod rhai darparwyr yn amharod i ymateb i angen lleol. Mae'n bosibl y ceir prinder aseswyr a hyfforddwyr cymwysedig priodol i symud i mewn i gyflenwi meysydd dysgu newydd. Byddwn yn gweithio gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i ystyried y mater hwn ymhellach.

Mae angen ceisio datblygu ymgyrchoedd a negeseuon cyson, syml a llawn ysbrydoliaeth a fydd yn rhoi darlun clir o'r rhaglenni y gall cynulleidfaoedd eu cyrchu.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni phennwyd y costau'n llawn eto ond disgwylir y gallai rhai camau gweithredu, fel y'u hamlinellir uchod, arwain at gost ychwanegol cymharol fach. Disgwyliaf y gellid ymdopi â'r cyfryw gostau o fewn y cyllidebau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 15**
Ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod grantiau, gan gynnwys grantiau ar gyfer costau teithio hanfodol, ar gael i brentisiaid er mwyn i bobl ifanc o'r aelwydydd incwm isaf beidio â chael eu rhwystro rhag gwneud cais am brentisiaethau oherwydd yr effaith niweidiol ar lwfansau'r teulu.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddai angen rhoi ystyriaeth i gyflwyno cymorth o'r fath, a byddai'n rhaid ymchwilio'n llawn i effaith grantiau ar faterion megis budd-daliadau trethadwy. Mae angen hefyd pwyso a mesur tlodi fel mater sylfaenol y mae prentisiaid yn ei wynebu. Yn amodol ar adnoddau staff, byddwn yn cynnal adolygiad o'r gefnogaeth sydd ar gael i brentisiaid ac yn ystyried pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru yn gallu dilyn Prentisiaethau.

Mae prentisiaid yn unigolion sydd â statws cyflogedig. Mater i'r cyflogwr a'r prentis yw gwneud y trefniadau angenrheidiol i dalu'r costau teithio a llety yn unol â gweithdrefnau arferol y cyflogwr. Ni fydd y cyflogwr na Llywodraeth Cymru yn cefnogi costau teithio a llety yr eir iddynt fel arfer fel rhan o'r gyflogaeth (yn hytrach na dysgu). Fodd bynnag, os oes cyfnod o hyfforddiant yn digwydd a hynny o anghenraid i ffwrdd o gartref, rhywbeth sy'n rhan annatod o fframwaith prentisiaeth, a bod y costau'n eithriadol, mae modd sicrhau ad-daliad o'r costau hyn gan Lywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau, y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r gweithredu hwn.

**Argymhelliad 16**
Nodi a monitro'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau, y rhesymau am y gwahaniaethau hynny, ac archwilio'r posibilrwydd o bennu targedau ar gyfer gwella cyfradd recriwtio prentisiaid benywaidd yn y sectorau â blaenoriaeth o safbwynt economaidd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Drwy gyfrwng Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2013/14, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu Estyn i gynnal adolygiad ar y rhwystrau rhag cysylltu a chyfranogi sy'n wynebu grwpiau pobl dduon, ethnig ac anabl sy'n dilyn y rhaglen brentisiaethau ac ar ddylanwad y rhywiau gan ganolbwyntio ar yr un pryd ar ddulliau a modelau arferion da. Yn ogystal, byddant yn canfod ac yn adrodd am unrhyw sectorau galwedigaethol penodol lle mae materion ethnigrwydd, anabledd a/neu'r rhywiau yn cyflwyno rhwystrau posibl, gan gynnwys adolygu'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn sectorau galwedigaethol. Prosiect dwy flynedd yw hwn a bydd yn dechrau yn Ebrill 2013 ac fe'i cwblheir yn Ionawr 2015. Bydd y prosiect hwn yn hysbysu polisi Llywodraeth Cymru i'r dyfodol gan gynnwys ymarferoldeb pennu targedau ar gyfer gwella recriwtio prentisiaid benyw yn y sectorau â blaenoriaeth o safbwynt economaidd.

**Goblygiadau Ariannol –** Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfod y costau, y manteision a'r opsiynau o ganlyniad i'r ymchwil hwn a pheri gwaith peilot penodol a allai wella hyrwyddo materion cydraddoldeb ar y rhaglen brentisiaethau. Bychan fyddai'r costau a byddent yn cael eu talu o'r cyllidebau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 17**

Darparu hyfforddiant cydraddoldeb rhywiol ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr addysgu proffesiynol i gywiro unrhyw stereoteipio yn y cyngor a roddant i bobl ifanc.

**Ymateb: Derbyn**

Mae hyfforddiant cydraddoldeb cadarn eisoes ar gael ar gyfer pawb sy'n rhoi cyngor gyrfaoedd i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae hyfforddiant Gyrfa Cymru i'w gynghorwyr yn cynnwys herio stereoteipio o safbwynt y rhywiau. Mae tystiolaeth o hyn i'w weld yn Arolygiad Estyn o Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yn 2009 a ganfu *bod y cwmni yn monitro cyfraddau cyfranogi gwahanol grwpiau yn dda ac y ceir ystod eang o gynlluniau effeithiol i herio'n llwyddiannus stereoteipio o safbwynt y rhywiau mewn dewisiadau gyrfa.*

Mae mynd i'r afael â stereoteipio o safbwynt y rhywiau eisoes yn cael sylw yn y Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) a'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (SAG) sy'n berthnasol i bob athro yng Nghymru.

Diben cyffredinol y safonau proffesiynol yw codi safonau addysgu a gwella'r canlyniadau i ddysgwyr ledled Cymru. Mae'r safonau proffesiynol yn datgan y dealltwriaethau, y wybodaeth a'r gwerthoedd y mae'n rhaid i athro eu dangos.

Rhaid i'r holl hyfforddeion yng Nghymru sy'n dymuno bod yn athrawon cymwysedig fodloni Safonau SAC Llywodraeth Cymru. Datganiadau o ganlyniad sy'n dangos yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr ac eraill ar gyrsiau neu raglenni HCA ei wybod, ei ddeall a bod yn gallu ei wneud er mwyn ennill SAC yw'r safonau. Maent yn cynnwys cyfeiriadau manwl at y gofyn i roi sylw i ddarpariaeth gydradd, gan gynnwys yr hyn sy'n ymwneud â'r rhywiau. Ni ellir, felly, dyfarnu SAC i athrawon dan hyfforddiant oni allant ddangos eu bod wedi bodloni'r gofynion hyn.

Ar ôl i athrawon ddechrau ymarfer, mae'r SAG yn darparu fframwaith i alluogi ymarferwyr i nodi eu hamcanion rheoli perfformiad a dewis y gweithgareddau datblygu proffesiynol mwyaf priodol. Fel hyn, drwy fonitro perfformiad yn erbyn y safonau, caiff tystiolaeth o ffocws annigonol ar fynd i'r afael â stereoteipio o safbwynt y rhywiau ei nodi fel un o'r anghenion datblygu proffesiynol wedi'i deilwra yn unol ag anghenion yr ymarferydd unigol.

Mae'r dull hwn sydd wedi'i dargedu yn fwy effeithiol yn mynd i'r afael â materion y rhywiau na dull unffurf i bawb a allai ddarparu hyfforddiant generig i bob athro, gyda llawer o'r rheini wedi dangos drwy gyfrwng eu hymarfer effeithiol nad oes arnynt angen hyfforddiant ar y mater hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Cydnabyddir y bydd costau ychwanegol o bosib yn gysylltiedig â'r gweithgarwch hwn. Rydym wedi cytuno ar £20 miliwn yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 drwy'r cytundeb cyllido, felly bydd cyllideb gyffredinol y rhaglen prentisiaethau yn talu'r costau ychwanegol cysylltiedig.

**Argymhelliad 18**
Sicrhau bod canllawiau cliriach yn cael eu darparu ar gyfer cyflogwyr ar sut i recriwtio prentisiaid a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan ddarparwyr dysgu.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ceisio cynhyrchu canllawiau cliriach ar gyfer recriwtio a chadw prentisiaid. Bydd y rhain yn dynodi meysydd megis defnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, cyfle cyfartal ac arweiniad ar feysydd eraill sy'n gysylltiedig â fframweithiau a'r gyfraith cyflogaeth. Bydd yn amlygu cytundeb ffurfiol rhwng y cyflogwr a'r darparwr ynghyd â rolau a chyfrifoldebau pob parti. Byddwn yn datgan yn glir yr hyn y gall cyflogwyr ei ddisgwyl gan ein darparwyr dysgu. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gydag ein rhwydwaith o ddarparwyr i lunio deunydd darllen sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr sydd wedi'i anelu fwy at BBaCh.

**Goblygiadau Ariannol** - Disgwylir y telir am rai o'r camau gweithredu y'u hamlinellir uchod o'r dyraniadau cyllideb presennol.

**Argymhelliad 19**
Adolygu effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau sgiliau sector fel rhan o'i gwaith o symleiddio'r system brentisiaethau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae newidiadau pwysig wedi effeithio ar drefniadaeth a chyflenwi'r Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector yn ddiweddar, ac mae'r rhain yn cyflwyno her barhaus i reoli'r berthynas rhyngddynt.

Ein bwriad yw dwyn y gwasanaeth gyrfaoedd i berchnogaeth gyhoeddus, fel is-gorff dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu cyfle o'r newydd i wella ein perthynas gyda'r cwmni a newid ffocws trafodaethau gyda phartneriaid eraill.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth; ac, yn y dyfodol, y Fforwm Strategol Gyrfaoedd, er mwyn gwella cysondeb perthnasoedd ar draws y teulu gyrfaoedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Gallai'r gweithredu hwn arwain at alw cynyddol am niferoedd y prentisiaethau. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi cytuno ar £20m yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau ym mlwyddyn ariannol 2013-14 drwy gyfrwng cytundeb y gyllideb, felly bydd cyllideb gyffredinol y rhaglen brentisiaethau yn talu'r costau ychwanegol cysylltiedig.

**Argymhelliad 20**
Adolygu effeithiolrwydd prentisiaethau a reolir gan y sector er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brentisiaethau a chodi safonau'r ddarpariaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Bodlonir yr argymhelliad hwn fel rhan o'r gweithgaredd cysylltu â chyflogwyr ehangach a amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 1. Rwyf wedi gofyn i'r Swyddogion ystyried y modelau Prentisiaethau ar y Cyd presennol. Maent yn mesur yr angen i ddatblygu modelau ar y cyd newydd gan edrych ar sut y gallwn sbarduno'r farchnad a chreu cyfleoedd am brentisiaethau newydd na fyddent yn bodoli fel arall. Mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio ar rai sectorau o'r economi ac mae rhai cwmnïau y mae'r dirwasgiad wedi effeithio arnynt naill ai'n methu neu'n amharod i gyflogi, a thalu prentisiaid newydd yn llawn.

Gan weithio gydag ein cydweithwyr yn yr adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, y ffora busnes, y rhwydwaith darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill a nodir, rhoddir ystyriaeth i sut y gallwn gefnogi rhai ardaloedd, sectorau a phartneriaid rhanbarthol penodol i gynnig nifer gyfyngedig o fodelau Prentisiaethau ar y Cyd lle teimlwn fod angen hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Disgwylir y bydd rhai o'r camau gweithredu a amlinellir uchod yn niwtral o ran costau; er hynny, cydnabyddir y gellid bod rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi cytuno ar £20m yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau ym mlwyddyn ariannol 2013-14 drwy gyfrwng cytundeb y gyllideb, felly bydd cyllideb gyffredinol y rhaglen brentisiaethau yn talu'r costau ychwanegol cysylltiedig.